



monmouthshire
sir fynwy

Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr,
Brynbuga, NP15 1GA

Ffôn : - 01633 644880

E-bost : planning@monmouthshire.gov.uk

Canllawiau Gwasanaeth Cynllun Carlam a Ffioedd

Sylweddolwn y gall fod achlysuron pan fyddwch angen penderfyniad cyflymach ar eich cais, felly rydym yn cynnig gwasanaeth Cynllun Carlam ar gyfer ceisiadau cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd hysbyseb a thystysgrif datblygiad cyfreithlon (presennol neu arfaethedig).

Bydd gwasanaeth Cynllun Carlam Sir Fynwy yn cyflymu gweinyddu a phrosesu eich cais i roi penderfyniad i chi o fewn amserlen fyrrach.

Nid yw defnyddio'r gwasanaeth Cynllun Carlam yn effeithio ar werth y cynnig datblygu ac felly i fanteisio'n llawn ar y cyfleuster gallech hefyd fod â diddordeb yn ein gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais fydd yn rhoi arweiniad os byddai eich cais yn dderbyniol cyn cyflwyno cais ffurfiol. Mae trafodaeth cyn gwneud cais yn sicrhau y caiff unrhyw broblemau posibl eu trin cyn i chi gyflwyno eich cais cynllunio. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein gwasanaeth cyn gwneud cais ewch i'n gwefan: <https://www.monmouthshire.gov.uk/planning/before-an-application/>

Ffioedd Gwasanaeth Cynllun Carlam

Islaw gweler rhai ceisiadau cyffredin, fodd bynnag mae ffioedd yn amrywio am geisiadau llawn felly holwch planning@monmouthshire.gov.uk i gael ffi cywir y cynllun carlam ar gyfer eich cais.

Ceisiadau Cynllunio Deiliaid Tai

Nod y gwasanaeth hwn yw rhoi penderfyniad cyflymach i gwsmeriaid ar eu cais, fel arfer o fewn 28 diwrnod o gyflwyno cais cynllunio dilys am ffi ychwanegol. Mae amserlenni yn amrywio gyda cheisiadau eraill. Caiff cais dilys ei ddiffinio fel yr amlinellir yng Nghylchlythyr 002/12 Llywodraeth Cymru.

Byddai ffi llwybr carlam ar gyfer ceisiadau deiliaid tai yn £115.00. Mae ffioedd Cynllun Carlam yn daladwy yn ychwanegol at unrhyw ffioedd cais sy'n daladwy dan y Ddeddf Cynllunio Tref a Gwlad, Felly, cyfanswm cost y gwasanaeth fyddai'r ffi statudol o £230.00 ynghyd â £130 (yn cynnwys TAW), felly ffi cyflawn o **£360.00**.

Yn y sefyllfa annhebygol na fyddem yn medru cyflawni'r targed neu gytno ar estyniad amser byr byddwn yn ad-dalu ffi y gwasanaeth cynllun carlam o £115.00. Byddai estyniad amser byr yn cael ei ddiffinio fel pum diwrnod gwaith (wythnos) ychwanegol felly byddai'n rhaid i hyn fod yn dderbyniol i'r cwsmer.

Mathau eraill o geisiadau y gellid eu rhoi ar lwybr cyflym yw ceisiadau Llawn a Newid Defnydd. Y ffi llwybr carlam ar gyfer y ceisiadau hyn fyddai £255.00. Felly, cost gyflawn y gwasanaeth fyddai'r ffi statudol o £460.00 ynghyd â £255.00 (gan gynnwys TAW) felly'r ffi gyflawn o £715.00.

Tystysgrif Datblygu Cyfreithlon– Presennol neu Arfaethedig

Nod y gwasanaeth hwn yw rhoi penderfyniad cyflymach i gwsmeriaid ar eu Tystysgrif Datblygu Cyfreithlon o fewn 10 diwrnod o gais cynllunio dilys am ffi ychwanegol. Caiff cais dilys ei ddiffinio fel yr amlinellir o fewn Cylchlythyr 002/2 Llywodraeth Cymru.

- Tystysgrif Datblygu Cyfreithlon Arfaethedig – byddai ffi statudol lawn ar gyfer y cais cynllunio perthnasol E.e. Byddai'r ffi i Ddeiliad Tai yn **£230**.
- Tystysgrif Datblygu Cyfreithlon Presennol – ffi cais cynllunio perthnasol + 50% E.e. Byddai'r ffi i Ddeiliaid Tai yn **£345**.

Nodyn: mae'r ffi Cynllun Carlam yn cynnwys TAW.

Mae ffioedd Cynllun Carlam ar gyfer Tystysgrifau Datblygu Cyfreithlon yn daladwy yn ychwanegol at unrhyw ffioedd cais sy'n daladwy dan Ddeddf Cynllunio Tref a Gwlad. Yn y sefyllfa annhebygol na fedrem benderfynu ar Dystysgrif Datblygu Cyfreithlon o fewn 10 diwrnod gwaith byddid yn ad-dalu'r ffi gwasanaeth cynllun carlam.

Caniatâd Adeilad Rhestredig

Nod y gwasanaeth hwn yw rhoi penderfyniad i gwsmeriaid o fewn 35 diwrnod cais dilys am ffi ychwanegol. Yn y sefyllfa annhebygol na fyddem yn medru cyflawni'r targed hwn neu gytuno ar estyniad amser byr byddwn yn ad-dalu ffi y gwasanaeth cynllun carlam. Byddai estyniad amser byr yn cael ei ddiffinio fel pum diwrnod gwaith (1 wythnos) ychwanegol felly byddai'n rhaid i hyn fod yn dderbyniol i'r cwsmer. Mae'r gwasanaeth hwn yn eithrio ceisiadau ar gyfer Adeiladau Rhestredig Gradd I.

LBC £420

NODYN (dim ffi cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig, mae'r ffi hwn yn llwyr ar gyfer gweithredu'n gyflym ar y cais)

Caniatâd Hysbyseb

Mae'r gwasanaeth yn anelu i ddarparu penderfyniad cyflymach i gwsmeriaid ar eu cais, fel arfer o fewn 28 diwrnod o gyflwyno cais cynllunio dilys am dâl ychwanegol. Mae amserlenni yn amrywio gyda cheisiadau eraill. Caiff cais dilys ei ddiffinio fel yr amlinellir o fewn Cylchlythyr 002/12 Llywodraeth Cymru.

Ar gyfer hysbysebion a ddangosir mewn sefyllfaoedd busnes, arwyddion Advance sydd heb fod ar na ellir eu gweld o'r safle, cyfeirio'r cyhoedd i fusnes **£190**

Arall Hysbysebion **£732**

Sut i wneud cais am Wasanaeth Cynllun Carlam

Gallwch wneud cais am y gwasanaeth hwn drwy lenwi'r ffurflen gais arferol ynghyd â'r Ffurflen Gais am Wasanaeth Cynllun Carlam. Anfonwch y ffurflenni wedi eu cwblhau i'r cyfeiriad uchod neu drwy e-bost, ynghyd â'r ffi berthnasol ac unrhyw gynlluniau a dogfennau cysylltiedig.

Gellir talu drwy gerdyn ar ein gwefan neu dros y ffôn ar: 01633 644355.: <https://www.monmouthshire.gov.uk/home/report-pay-or-request/pay-for-it/>

Beth yw'r broses?

Pan dderbyniwch eich cais Cynllun Carlam byddwn yn –

- Cofnodi'r cais ar ein systemau mewnol ac yn cydnabod derbyn y cais.
- Dyrannu eich cais i swyddog Rheoli Datblygu a ddaw yn swyddog achos i chi.
- Bydd y swyddog achos yn cynnal asesiad bwrdd gwaith dechreuol o'r cais a phenderfynu os yw'r cais yn ddilys. Os nad yw'r cais yn ddilys, byddant yn cysylltu i ofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol. D.S. Nid yw'r amserlen gwasanaeth cynllun carlam yn dechrau nes y bydd y swyddog achos wedi derbyn cais dilys.
- Pan fydd y cais yn ddilys caiff ei gofrestru a lle'n briodol ymgynghorir ar unrhyw gymdogion ac ymgynghoreion statudol perthnasol ar y cynigion. Yn achlysurol gall y swyddog achos ofyn am ddiwygiadau i'r cynllun.
- Gall y swyddog benderfynu ar y cais yn dilyn y cyfnod ymgynghori.